COFNODION CYFARFOD Y FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 26 MEHEFIN 2018, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | Bennett | JPD Blundell |
| P Davies | Cllr R Davies | Cllr L Desmond-Williams | RM Granville |
| AA Pucella | CE Smith | SG Smith | JH Tildesley MBE |
| MC Voisey | Warren | KJ Watts | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cllr P Gwilliam a/ac RL Penhale-Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Richard Matthams | Arweinydd Tîm Cynllunio Datblygiadau |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |

160. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelodau canlynol:-
Y Cynghorydd R Penhale-Thomas
Y Cynghorydd PW Jenkins
Y Cynghorydd P Gwilliam

161. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim.

162. CYDNABYDDIAETH CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

Gwahoddodd y Cadeirydd y canlynol i'r cyfarfod: Mr. L Jones, o Lywodraeth Cymru, a Ms. S. Willey a Mr. G. Owens o Banel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru, er mwyn rhoi cyflwyniad ar y pwnc uchod.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y canlynol:-

**Grwpiau Cynghorau Cymuned a Thref**
Credai'r Panel bod yr amrywiad eang ym maint y Cynghorau Cymuned a Thref, yn golygu bod yn rhaid i gyfrifoldebau ac atebolrwydd Cynghorwyr hefyd amrywio.

Mae cynghorwyr sy'n rheoli incwm gwariant o £1m ac sy'n darparu gwasanaethau sylweddol, gan gynnwys y rhai a ddirprwywyd efallai o Brif Gynghorau, yn gweithredu mewn amgylchedd llawer mwy cymhleth na Chyngor sydd â chyllideb flynyddol o lai na £30k.

Archwiliodd y Panel ystod o fesurau y gallem eu defnyddio fel sail ar gyfer grwpio Cynghorau Cymuned a Thref i adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn.

Daethom i'r casgliad bod defnyddio ffigyrau incwm neu wariant yn adlewyrchu'n well lefelau gweithgarwch Cyngor na chymarebau poblogaeth neu braeseptau, y darganfu'r Panel nad ydynt bob amser yn cyfateb i incwm neu wariant.

Gan ystyried adborth ymgynghoriad ar yr Adroddiad Blynyddol drafft, ffurfiodd y Panel 3 grŵp o Gynghorau Cymuned a Thref ar sail lefel yr incwm neu'r gwariant, pa un bynnag yw'r uchaf, yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Roedd hefyd yn haws i Gynghorau ddeall pa grŵp maent yn perthyn iddo h.y.:-

| Grŵp Cyngor Cymuned / Tref | Incwm neu wariant yn 2017-18 o |
|---|---|
| A | £200k ac uwchlaw |
| B | £30k - £199,999k |
| C | Dan £30k |

Yna, aeth y Swyddogion o'r IRWP ymlaen i siarad am wahanol Benderfyniadau a wnaed fel a ganlyn:-

Penderfyniad 44

Rhaid i gynghorau cymuned a thref yn Grwpiau A a B sicrhau bod taliad ar gael i bob un o'u haelodau o £150 y flwyddyn am gostau a geir o ran defnyddio ffôn, technoleg gwybodaeth, nwyddau traul ayb.

Penderfyniad 45

Awdurdodir cynghorau cymuned a thref yn Grŵp C i sicrhau bod taliad ar gael i bob un o'u haelodau o £150 y flwyddyn am gostau a geir o ran defnyddio ffôn, technoleg gwybodaeth, nwyddau traul ayb.

Penderfyniad 46

Rhaid i gynghorau cymuned a thref yn Grŵp A sicrhau bod taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i leiafswm o 1 ac uchafswm o 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau.

Penderfyniad 47

Awdurdodir cynghorau cymuned a thref yn Grwpiau B neu C i wneud taliad blynyddol o £500 yr un i hyd at 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau os hawlir hynny.

Penderfyniad 48

Awdurdodir cynghorau cymuned a thref i wneud taliadau i bob un o'u haelodau o ran costau teithio ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn wir gostau teithio trwy gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd CThEM fel y'u nodir yn yr adroddiad blynyddol.

Penderfyniad 49

Os bydd cyngor cymuned neu dref yn penderfynu bod dyletswydd benodol angen arhosiad dros nos, gall awdurdodi ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w haelodau ar y cyfraddau uchaf a nodir yn yr adroddiad blynyddol ar sail hawliadau gyda derbynebau.

Penderfyniad 50

Awdurdodir cynghorau cymuned a thref i dalu iawndal colled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi digwydd mewn gwirionedd, am fynychu dyletswyddau cymeradwy fel y nodir yn yr adroddiad blynyddol.

Penderfyniad 51

Rhaid i bob cyngor cymuned a thref ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol i ofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403/mis ar ôl derbyn derbynebau gan y gofalwr. Rhaid i'r ad-daliad fod am y gost ychwanegol a geir gan aelodau er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy. Dim ond ar ôl derbyn y derbynebau gan y gofalwr y gwneir ad-daliad.

Penderfyniad 52

Awdurdodir cynghorau cymuned a thref i ddarparu taliad Pennaeth Dinesig i faer/ cadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500 i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau a'r cyflog uwch o £500 os caiff y rhain eu hawlio.

Penderfyniad 53

Awdurdodir cynghorau cymuned a thref i ddarparu taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig i ddirprwy faer/dirprwy gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £500 i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau a'r cyflog uwch o £500 os caiff y rhain eu hawlio.

Aelodau Prif Gynghorau

Ni all yr aelodau sy'n derbyn cyflog uwch band 1 neu band 2 gan Brif Gyngor (Arweinydd, Dirprwy Arweinydd, Aelod o'r Pwyllgor Gwaith) dderbyn unrhyw daliad gan Gyngor Cymuned neu Dref ac eithrio treuliau teithio a chynhaliaeth ac ad-dalu costau gofal. Fodd bynnag, gallant ddal swydd uwch yn y Cyngor Cymuned neu Dref.

**Amserlen Flynyddol**

Mawrth

Rhaid i'r Cyngor ystyried pob penderfyniad yn adroddiad terfynol yr IRPW a chofnodi ei benderfyniad ffurfiol mewn perthynas â'r penderfyniadau nad ydynt yn orfodol, a fydd yn berthnasol i'r holl aelodau.

Mai

O ddyddiad y Cyfarfod Cyffredinol, mae’r holl daliadau gorfodol a'r taliadau nad ydynt yn orfodol y mae'r Cyngor wedi'u mabwysiadu i'w gwneud i bob aelod. Mae'n rhaid i'r Clerc dderbyn hysbysiad priodol gan unrhyw aelod sy'n gwneud penderfyniad personol i hepgor rhan neu'r cyfan o’r taliadau

Medi (erbyn 30ain)

Cyhoeddi, ac anfon at yr IRPW, fanylion o’r holl daliadau a wnaed i aelodau unigol am y flwyddyn ariannol flaenorol mewn 'Datganiad Blynyddol o Daliadau. *Mae'r IRPW wedi cynhyrchu pro fforma i helpu gyda hyn, sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Panel. Gellir diwygio'r pro fforma hon bob blwyddyn.*

Hydref

Ystyried y penderfyniadau yn adroddiad drafft yr IRPW ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a defnyddio hyn i lywio'r cynlluniau Cyllideb.

Gan fod hyn yn dod â'r Cyflwyniad i ben, agorodd y Cadeirydd y cyfarfod ar gyfer cwestiynau.

Nododd Aelod y gellid talu lwfansau/ treuliau i Gynghorwyr Tref/ Cymuned, ond mynegodd bryder ynghylch y ffaith nad oedd ganddynt unrhyw adnoddau a/neu gapasiti i drefnu neu recriwtio Swyddog Cyllid Cyfrifol addas i ymgymryd â chyfrifo'r taliadau hyn yn rheolaidd, ac roedd yn meddwl tybed a allai'r Cyngor Bwrdeistref Sirol ar gyfer yr ardal benodol honno gynorthwyo i'r perwyl hwn, er enghraifft, math o Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Teimlai fod hyn yn rhywbeth y gellid ei ystyried gyda CThEM. Gofynnodd hefyd a fyddai'r taliadau hyn yn cael eu gwasgaru dros gyfnod o flwyddyn, neu eu talu fel cyfandaliad unwaith ac am byth, ac os byddai taliadau o'r fath yn ddarostyngedig i dreth incwm a gostyngiadau yswiriant gwladol.

Dywedodd aelod o'r IRWP ei fod yn fater i'r Cyngor Tref/ Cymuned priodol os oedd am dalu'r uchod mewn rhandaliadau neu fel taliad unwaith ac am byth, ac y gallai corff fel Un Llais Cymru roi cyngor iddynt ynglŷn â beth oedd y math o daliadau sy'n ddarostyngedig i drethi ayb. Yn amlwg, ni fyddai treuliau yn destun treth/ yswiriant gwladol, ond ychwanegodd, oherwydd bod y CynghorwyrTref/ Cymuned yn talu o'u poced eu hunain, byddent yn gymwys i dderbyn hyn yn ôl fel ad-daliad net. Fodd bynnag, byddai taliad ar ffurf lwfans yn ddarostyngedig i dreth gan ei fod yn swm o arian y byddai'r person sy'n ei dderbyn yn gorfod ei ddatgan ar ddiwedd blwyddyn dreth.

Teimlai Aelod ei bod yn bwysig ceisio gwella lefelau amrywiaeth mewn perthynas â Chynghorwyr Tref/ Cymuned, yn enwedig o gofio yn yr etholiadau lleol diweddar bod 66% o seddi heb eu gwrthwynebu ar lefel Cyngor Tref/ Cymuned, ac roedd y mwyafrif o seddi yn cael eu llenwi gan ddynion gwyn. Teimlai nad oedd yn gywilydd i Gynghorwyr Tref/ Cymuned dderbyn treuliau a lwfansau mewn sefyllfaoedd lle caniateir hyn. Ychwanegodd, er y dylai awdurdodau lleol roi gwybod i'r cyhoedd faint o daliadau a wnânt i Gynghorwyr, gyda Chynghorau Tref/ Cymuned hefyd yn mabwysiadu'r un dull, gofynnodd i gynrychiolwyr yr IRWP os oedd angen enwi'r aelodau a oedd yn derbyn taliadau o'r fath.

Dywedodd aelod o'r IRWP bod rhaid i enwau'r Cynghorwyr Tref/ Cymuned sy'n cael unrhyw fath o daliad am rôl benodol y maent yn ei gyflawni mewn Cyngor Tref/ Cymuned gael eu henwi, fel y maent yn ei wneud os ydynt yn gwasanaethu Cyngor Bwrdeistref Sirol, gan fod y wybodaeth hon yn adlewyrchu atebolrwydd i'r etholwyr y mae'r Awdurdod penodol yn eu gwasanaethu. Mae'r taliadau hyn hefyd wedi'u gosod gan yr IRWP ac nid y Cyngor Tref/ Cymuned, ac mae'n ofyniad gan y corff hwn bod Cynghorau Tref/ Cymuned yn agored ac yn dryloyw gyda'r cyhoedd o ran taliadau i rai aelodau allweddol. Er mai ar gyfer taliadau a lwfansau yn unig yr oedd hyn yn berthnasol, yn hytrach na threuliau, lle'r oedd y Cynghorydd Tref/ Cymuned wedi talu ac yna hawlio'r tâl hwnnw'n ôl. Nid oedd angen rhoi gwybod i'r cyhoedd am hyn, ychwanegodd.

Gofynnodd Aelod, pe bai Cynghorydd Tref/ Cymuned penodol yn digwydd gwasanaethu ar ddau Gyngor, a allent hawlio ddwywaith am gyflawni rôl benodol y gellid hawlio taliad amdano, ac atebodd cynrychiolydd o'r IRWP y gallent. Eglurodd fod yr IRWP wedi cynghori Cynghorau Tref/ Cymuned ynghylch pa swyddi y gellir gwneud taliad neu lwfans amdanynt, ac roedd yn agored iddynt hwy wedyn benderfynu a oeddent yn dymuno mabwysiadu hyn. Pwysleisiodd nad oedd y taliad neu'r lwfans wedi'i osod gan

Gynghorau Tref/ Cymuned ond gan yr IRWP. Roedd gan Gynghorau Tref/ Cymuned y cwmpas i fabwysiadu'r rhain neu fel arall, pe bai Aelodau'n dymuno derbyn unrhyw daliadau o'r fath. Fodd bynnag, roedd gan Gynghorau Tref/ Cymuned y pŵer i benderfynu faint o rolau allai fod yn ddarostyngedig i daliad, os nad oedd y swm ar gyfer unrhyw rôl o'r fath yn uwch na'r lefel a osodwyd gan yr IRWP.

Dywedodd Aelod y byddai o gymorth pe bai adroddiad drafft blynyddol IRWP ar gael yn gynharach, fel ei fod yn fwy yn unol â'r amser pan fo Cynghorau Tref/ Cymuned yn gosod eu praeseptau.

Cadarnhaodd cynrychiolydd yr IRWP mai Llywodraeth Cymru oedd yn pennu amserlen ar gyfer sefydlu'r IRWP drafft, ond ychwanegodd y gallai'r IRWP drafod y pwynt hwn gyda hwy.

PENDERFYNWYD: Nodi'r cyflwyniad.

163. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AMNEWIDIOL (PEN-Y-BONT AR OGWR)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad, a oedd yn amlinellu'r camau a wnaed hyd yn hyn wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol Amnewidiol (Pen-y-bont ar Ogwr) (2018-2033), gan ganolbwyntio ar:

- Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr (2013) (Atodiad 1 i'r adroddiad). Mae'r ddogfen hon yn nodi maint arfaethedig y newidiadau tebygol i'r CDLl presennol (2006-2021) ac mae'n ceisio cadarnhau'r weithdrefn adolygu i'w dilyn wrth baratoi CDLl amnewidiol. Cynigir y bydd y CDLl Amnewidiol yn cwmpasu cyfnod y cynllun hyd at 2033, sef diwedd cyfnod cynllun 15 mlynedd a fydd yn cychwyn yn 2018; a
- Chytundeb Cyflenwi Cynllun Datblygu Lleol Amnewidiol Pen-y-bont ar Ogwr (Atodiad 2 i'r adroddiad). Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn nodi sut a phryd y gall y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill gyfrannu at baratoi'r Cynllun Amnewidiol ac amserlen i'w baratoi. Cynigir y bydd y CDLl Amnewidiol yn cynnwys cyfnod y cynllun hyd at 2033

Bydd yr Adroddiad Adolygu (ar gyfer y CDLl presennol (2013)) a'r Cytundeb Cyflenwi ar gyfer y CDLl amnewidiol yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn diwedd Mehefin 2018, ar ôl i'r Cyngor gytuno arnynt.

Ynghyd â'r adroddiad, rhoddwyd cyflwyniad PowerPoint gan Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygu, gyda'r Rheolwr Grŵp Datblygu yn bresennol hefyd.

Roedd y Cyflwyniad yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

1. Beth yw CDLl - Strategaeth lefel uchel sy'n dyrannu defnydd tir ledled y Fwrdeistref Sirol. Bydd hyn yn portreadu amcanion allweddol, rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus a chynlluniau llesiant. Bydd y CDLl yn gyfrifol am ddatblygu cynaliadwy a darpariaeth twf cynaliadwy.

2. Bydd y Cyngor yn monitro'r CDLl at ddibenion perfformiad, ac mae'n ofynnol ei adolygu bob 4 blynedd.

Mae'r CDLl yn helpu i wella a chyflenwi/ creu'r canlynol:-

- Cartrefi newydd / Tai Fforddiadwy
- Cyflogaeth
- Canol Trefi
- Adfywio

- Amgylchedd
- Seilwaith Gwyrdd
- Darpariaeth addysg
- Atal datblygiadau amhriodol
- Cynaliadwyedd
- Cenedlaethau'r Dyfodol

Bydd angen asesu pob agwedd ar y Cynllun i ystyried a ydynt yn parhau i fod yn gadarn. Bydd hyn yn cynnwys:-

1. Gweledigaeth y CDLl
2. Ei Amcanion
3. Strategaeth Ofodol
4. Polisïau a Dynodiadau

Bydd yr Adolygiad llawn yn dilyn yr union broses baratoi a'r un cyfnodau â'r CDLl mabwysiedig gwreiddiol.

Hysbysir newidiadau i'r CDLl gan y canlynol:-

- Canfyddiadau a phryderon arwyddocaol a nodwyd yn y 3 AMR sydd wedi'u cyhoeddi ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu;
- Unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol (megis amodau ac amgylchiadau Cenedlaethol, Rhanbarthol neu leol);
- Tystiolaeth newydd;

Roedd rhan nesaf y Cyflwyniad yn cynnwys yr holl gamau sy'n gysylltiedig â dilyniant y CDLl, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer y rhain. Byddai'n arwain at fabwysiadu'r CDLl ym mis Awst / Medi 2021.

Eglurwyd y byddai nifer o randdeiliaid allweddol yn rhan o'r Adroddiad Adolygu, gydag 'ymgysylltu wedi'i dargedu' gyda rhanddeiliaid ayb. Enghreifftiau o'r rhain oedd y cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, Cyfoeth Naturiol Cymru, CADW, Dŵr Cymru a Chynghorau Tref/Cymuned.

Materion allweddol y CDLl fyddai bodloni’r Ddeddf Lleiant Cenedlaethau’r Dyfodol newydd (a chyflenwi’r amcanion); Teithio Llesol i ddarparu a gwella cysylltiadau trafnidiaeth effeithiol ac i gydymffurfio â thargedau dad-garboneiddio Ynni Adnewyddadwy a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Byddai'r CDLl yn nodi:-

1. Strategaethau a Safleoedd Newydd (Seiliedig ar dystiolaeth)

2. Noda PCC (pennod 8) a TAN1 beth yw cyflenadwyedd a hyfywedd ariannol safleoedd, sy'n ystyriaethau allweddol

3. Mae angen cyfiawnhau pob dyraniad yn y Cynllun newydd ar y cam ‘archwilio’ gan yr Arolygiaeth Gynllunio.

O ran cydweithio yn natblygiad y CDLl, byddai hyn ar ffurf y canlynol:-

- Grwpiau Thema'r CDLl (Gweithgorau Swyddogion, Addysg, Adfywio, Priffyrdd, ayb);
- Gweithgorau Rhanddeiliaid (GIG, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Chwmnïau Cyfleustodau (amrywiol));

- Sesiynau Briffio Aelodau Anffurfiol (dull Is-Ardal);
- Grŵp Llywio'r CDLl a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu; ac
- Ymgynghori ag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill

Y risgiau o beidio â chael CDLl yw:-

1. Llai o reolaeth i CBSPO;
2. Datblygiad amhriodol / adeiladu datblygiadau anghyfundrefnus/ ad-hoc;
3. Cynllunio trwy apêl
4. Tai fforddiadwy yn cael eu peryglu
5. Peryglu seilwaith newydd a chyllid
6. Peryglu projectau adfywio - ceisiadau am arian
7. Peryglu hyder buddsoddwyr

Ar nodyn terfynol, cadarnhaodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygu i'r Aelodau fod y CDLl presennol wedi sicrhau dros £8 miliwn o arian Cytundebau A106.

Gwnaeth Aelod nifer o sylwadau, sef bod angen i'r CDLl dargedu darpariaeth busnesau manwerthu bychan a oedd yn prinhau, gan adael siopau gwag; mwy o dai preswyl / fforddiadwy yng nghanol trefi, a mwy o reolaeth nag ar hyn o bryd yn achos Tai Amlfeddiannaeth, yn enwedig y rhai nad oeddent wedi'u cofrestru.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Cynllunio Datblygu y byddai'r uchod yn cael sylw trwy gynnal diweddariadau yn seiliedig ar Dystiolaeth, gan gynnwys Asesiadau Anghenion Manwerthu, ac adeiladu hyblygrwydd yn y CDLl i wneud addasiadau a fydd yn cydymffurfio ag unrhyw newidiadau i'r farchnad yn y dyfodol. Byddai'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid hefyd yn ymdrin ag unrhyw alw am ddarparu mwy o lety preswyl yng nghanol trefi, a fyddai'n arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn y lleoliadau hyn.

Holodd Aelod am y moratoriwm presennol ar adeiladu datblygiadau preswyl ym Mhencoed, ac os oedd bwriad codi hyn o dan ddarpariaethau'r CDLl newydd.

Dywedodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu bod y moratoriwm yn ei le ym Mhencoed oherwydd y sefyllfa bresennol o ran y groesfan yno, a oedd yn creu gormod o draffig cerbydau. Pe byddai modd datrys hyn yn ogystal ag ehangu neu adnewyddu’r bont yn yr orsaf reilffordd, byddai hyn yn lleihau traffig a chefnogi codi’r moratoriwm. Fodd bynnag, roedd angen buddsoddi er mwyn cywiro'r sefyllfa hon, ac wedyn gweld newid yn y sefyllfa bresennol. Roedd deialog yn mynd ymlaen i'r perwyl hwn gyda darparwyr trafnidiaeth amrywiol.

Ychwanegodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygu ei bod hi'n rhy gynnar i edrych ar faterion adfywio y CDLl ar hyn o bryd, ond byddai'r rhain yn cael eu harchwilio ar adeg briodol yn y dyfodol, gan gynnwys cynnal deialog gyda Chynghorau Tref/ Cymuned unigol i ymdrin â hyn a meysydd eraill y byddai'r CDLl yn eu cynnwys ym mhob ardal berthnasol o'r Fwrdeistref Sirol.

Wrth ystyried ardaloedd lle bwriedir adeiladu datblygiadau preswyl newydd, teimlai Aelod y dylid yn gyntaf ystyried safleoedd tir llwyd ac ardaloedd o fewn ffiniau anheddiad, yn hytrach na chwilio am leoliadau yng nghefn gwlad.

Dywedodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu fod hon yn broses a ddilynir bob amser o dan gyfraith, polisi a chanllawiau cynllunio.

Nododd Aelod y dylid darparu 20% o Dai Fforddiadwy ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond ei fod yn teimlo y dylai hyn gynyddu i 30%.

Dywedodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu bod materion megis prisiau marchnad tai a hyfywedd yn cael eu hystyried wrth fesur lefel y Tai Fforddiadwy yr oedd ei hangen ar gyfer unrhyw leoliad penodol.

Anogodd yr Arweinydd yr Aelodau i fynd yn ôl i'w Cynghorau Tref / Cymuned gyda'r neges eu bod yn ymgyngoreion statudol mewn perthynas â'r CDLl, ac y byddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn croesawu eu mewnbwn ar ddefnyddiau tir awgrymedig yn eu hetholaethau priodol.

Nododd Aelod fod y galw ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn cynyddu, o ystyried bod 79,000 o bobl yn arfer byw yn y Fwrdeistref Sirol ond fod y nifer nawr wedi codi i 135,000, gyda rhagamcaniad y byddai'n cynyddu ymhellach i 150,000 yn y dyfodol. Gofynnodd beth oedd yn ei le fel rhan o ystyriaethau'r CDLl i sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau, cyfleusterau (Meddygfeydd ychwanegol ayb) a chyfarpar i ddarparu ar gyfer gofal yr etholwyr yn y dyfodol, o ystyried y cynnydd disgwyliedig yn y boblogaeth mewn ardaloedd yn y Fwrdeistref Sirol lle'r oedd twf.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu bod yr awdurdod lleol wedi cysylltu â'r GIG ar faterion fel yr uchod, gyda'r golwg o roi gwybod iddynt y bu cynnydd yn nhwf ardal benodol o'r Fwrdeistref Sirol, drwy er enghraifft, y cynnydd mewn datblygiadau tai preswyl, fel y bu ym Mharc Derwen, Coity.

Dywedodd Aelod fod problemau ym Mhorthcawl gyda diffyg darpariaeth parcio ceir, a rhenti / trethi uchel ar gyfer safleoedd manwerthu a osodir gan Landlordiaid, sydd wedi arwain at gynnydd mewn siopau gwag.

Dywedodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu na ellid edrych ar gynnydd mewn trethi siopau a osodir gan Landlordiaid ar y cyd â'r CDLl; fodd bynnag, roedd adrannau eraill o'r Cyngor a allai edrych ar hyn, er enghraifft yr Adrannau Eiddo a Chyllid. Awgrymodd, fel y cyswllt cyntaf, bod yr Aelod yn cysylltu â'r Adran Adfywio a Rheolwr Canol Trefi.

Caeodd y Rheolwr Datblygu Grŵp y drafodaeth ar yr eitem hon, trwy ddweud y byddai'n rhaid i'r CDLl newydd fod yn addas i'r diben o ran defnydd tir a ddyrannwyd ym mhob ardal o'r Fwrdeistref Sirol, gan y byddai'r ddogfen yn destun craffu gan Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gynllunio Cymru.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

164. MATERION BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 18:15